**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**13 MAWRTH 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 13 Mawrth 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Helen Brown, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Paul Cunningham a Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:** Yr oedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Y Cynghorydd Tina Claydon - eitem 6.1 (061994) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Carolyn Preece – eitem 6.2 (062458) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Dave Healey - eitem 6.3 (FUL/000769/22) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Ian Roberts - eitem 6.4 (COU/000751/23) ar y rhaglen
Y Cynghorwyr Glyn Banks a Gina Maddison - eitem 6.5 a 6.6 (FUL/000621/23 a CONS/000790/22) ar y rhaglen
Y Cynghorydd Linda Thomas – eitem 6.9 (059489) ar y rhaglen
Y Cynghorwyr Dennis Hutchinson ac Andrew Parkhurst yn mynychu fel arsylwyr

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 56. DATGAN CYSYLLTIAD

Eitem 6.1 (061994) ar y Rhaglen - Datganodd y Cynghorydd Adele Davies-Cooke gysylltiad personol oherwydd ymgysylltiad aelod o'r teulu yn y cais.

Eitemau 6.1 (061994), 6.3 (FUL/000769/22) a 6.9 (059489) ar y Rhaglen - Datganodd y Cynghorydd Dan Rose gysylltiad personol oherwydd ei aelodaeth â sefydliad amgylcheddol.

Eitem 6.2 (062458) ar y Rhaglen - Datganodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol gan fod aelod o'r teulu yn cael eu cyflogi gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn. Datganodd y Cynghorydd Richard Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu fel Llywodraethwr o Ysgol Gynradd Southdown ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.

Eitem 6.3 (FUL/000769/22) ar y Rhaglen - Datganodd y Cynghorydd Gladys Healey gysylltiad personol sy'n rhagfarnu am ei bod wedi siarad yn erbyn datblygu safle'r cais cyn iddi gael ei hethol fel cynghorydd. Gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno. Datganodd y Cynghorydd David Healey (Aelod Lleol sydd ddim ar y Pwyllgor Cynllunio) gysylltiad personol sy'n rhagfarnu am ei fod wedi dangos

gwrthwynebiad i'r cais ar gyfer datblygu'r safle ac wedi caniatáu goddefeb gan y Pwyllgor Safonau, a'i fod am adael y cyfarfod ar gyfer gweddill yr eitem.

Eitem 6.4 (COU/000751/23) ar y rhaglen - datganodd y Cynghorydd Rob Davies gysylltiad personol sy'n rhagfarnu oherwydd ymgysylltiad aelod o'r teulu yn y cais ac fe adawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem honno.

## 57. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5501&LLL=0

## 58. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2024 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Mike Peers eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

## 59. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio unrhyw un o'r eitemau.

## 60. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

## 61. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Roedd 22 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 7.15pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 13 MAWRTH 2024**

| **RHIF YR EITEM** | **CYNGOR TREF / CYMUNED** | **SAFLE / CAIS** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| 061994 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | Cais llawn - Codi datblygiad preswyl o 232 o unedau ynghyd â man agored cyhoeddus ac isadeiledd cysylltiedig ar dir i’r gogledd o Ffordd Gwernaffield, yr Wyddgrug. | Siaradodd Chris Housecroft (Preswylydd) a’r Cynghorydd Tina Claydon (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Hayley Knight (Asiant) o blaid y cais. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar amodau a rhwymedigaethau Adran 106 a restrir yn yr adroddiad a’i ddiwygio fel a ganlyn:<br><br>• Rhwymedigaethau A106 - 4$^{ydd}$ pwynt bwled i gyfeirio at y Gorchymyn Cyfyngiad Traffig ar gyfer Factory Pool Lane yn hytrach na Pool House Lane. Cael gwared ar y 5$^{ed}$ pwynt bwled (darparu cyfleuster croesi wedi’i rheoli).<br><br>Fel y gwelir yn yr arsylwadau hwyr:<br>• Amod ychwanegol ar gyfer darparu troedffordd 2.0 o led ar hyd blaen y safle gyda Ffordd Gwernaffield;<br>• Cynnwys dwy ddogfen ychwanegol wedi’u cymeradwyo i’r rhestr yn amod 2; a<br>• Chael gwared ar amodau 9 a 12. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 062458 | Cyngor Tref Bwcle | Cais amlinellol - Datblygiad preswyl o hyd at 140 o anheddau, mynedfa, man agored, seilwaith draenio cynaliadwy a'r holl waith cysylltiedig arall (Cais Amlinellol gan gynnwys mynediad, gyda'r holl faterion eraill ar gadw) yn Well Street, Bwcle | Peter Newby (Preswylydd) a'r Cynghorydd Carolyn Preece (Aelod Lleol) yn siarad yn erbyn y cais. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar amodau a rhwymedigaethau Adran 106 a restrir yn yr adroddiad a'i ddiwygio fel a ganlyn:<br><br>Cael gwared ar yr 2il bwynt bwled Rhwymedigaeth A106 a chynnwys amod ar gyfer darpariaeth chwarae ar y safle o raddfa briodol. |
| FUL/000769/22 | Cyngor Cymuned yr Hôb | Cais llawn - Codi 70 annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau, tirlunio a'r gwaith cysylltiedig ar y tir yn Ffordd Wrecsam, Abermorddu | Claire Olsen (Preswylydd), y Cynghorydd Lynn Davies (Cyngor Cymuned yr Hôb) a'r Cynghorydd David Healey (Aelod Lleol) yn siarad yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Stuart Andrew (yr ymgeisydd) o blaid y cais. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar amodau a rhwymedigaethau Adran 106 a restrir yn yr adroddiad a'i ddiwygio fel a ganlyn:<br><br>Cael gwared ar yr 2il bwynt bwled, Rhwymedigaeth A106 (estyniad ar gyfyngiadau cyflymder 20mya) a'i newid gyda chais i Wasanaethau Stryd i adolygu'r cyfyngiad cyflymder presennol. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| COU/000751/23 | Cyngor Tref y Fflint | Newid defnydd - o swyddfeydd ac eiddo manwerthu gwag i far llawr gwaelod gyda blaen siop newydd a fflatiau ar y llawr cyntaf a'r ail lawr yn hen adeilad banc Barclays, 19-21 Stryd yr Eglwys, Y Fflint | Siaradodd y Cynghorydd Carol Griffiths (Cyngor Tref y Fflint) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Ian Roberts o blaid y cais. | Yn unol ag argymhelliad y swyddog, rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau yn yr adroddiad gydag amod ychwanegol ar gyfer yr oriau gweithredu yn y bar arfaethedig fel y gwelir yn yr arsylwadau hwyr. |
| FUL/000621/23 | Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor | Cais Llawn - Trawsnewid ac ymestyn adeilad allanol i ffurfio swyddfa gartref a champfa, dymchwel rhan o wal ffin i greu man parcio oddi ar y stryd, gyda phwynt gwefru cerbyd trydan yn Arweinfa, Gwaenysgor | Siaradodd Mark Turner (Asiant) o blaid y cais.<br><br>Siaradodd Gareth Williams (Preswylydd), Sue Clarke (Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor) a'r Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad ar ran y Cynghorydd Gina Maddison (Aelod Lleol) yn erbyn y cais. | I wrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Datblygiad amhriodol mewn ardal gadwraeth;<br>• Cynnig yn groes i bolisi EN9; ac<br>• Adeilad allanol ddim yn cyd-fynd â'r ardal o ran maint a deunyddiau. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| CONS/000790/22 | Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor | Cais mewn ardal gadwraeth - trawsnewid ac ymestyn adeilad allanol i ffurfio swyddfa gartref a champfa; a dymchwel rhan o wal ffin i greu man parcio oddi ar y stryd, gyda phwynt gwefru cerbyd trydan yn Arweinfa, Gwaenysgor | Siaradodd Gareth Williams (Preswylydd) a Sue Clarke (Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor) yn erbyn y cais. | I wrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad y swyddog, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Datblygiad amhriodol mewn ardal gadwraeth oherwydd dymchwel wal;<br>• Cael effaith ar y strydwedd; a<br>• Cynnig yn groes i bolisi EN9. |
| FUL/001017/23 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais llawn - Codi cartref gofal gyda 66 ystafell wely (Dosbarth Defnydd C2) ar gyfer yr henoed gyda mynediad cysylltiedig, lle parcio a thirlunio ym Mhlot 2, Safle Airfields, Porth y Gogledd, Sealand | Siaradodd Claire Howes (Asiant) o blaid y cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| FUL/000419/23 | Cyngor Cymuned yr Hôb | Cais llawn – Annedd newydd yn St Kilda, Fagl Lane, Yr Hôb | Darllenwyd datganiad ar ran Rachel Thornley (Asiant) yn cefnogi’r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF / CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELOD LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 059489 | Cyngor Cymuned Penarlâg | Cais llawn - Ffurfio mynediad dwy ffordd i gerbydau a ffordd yn Mold Road, Ewloe Green, Glannau Dyfrdwy | Siaradodd John Iball (Preswylydd) a'r Cynghorydd Linda Thomas (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd Keith York (Asiant) o blaid y cais. | Gohirio'r cais am y rhesymau canlynol:<br><br>• Bod yr arsylwadau hwyr ddim yn cael eu rhannu;<br>• Cynllun ddim yn ymddangos i fod yn cyd-fynd â'r adroddiad; ac<br>• Angen eglurhad ar effaith traffig o Pinfold Lane. |